
# 10 DYFAIS WAETHAF Y BYD

**Beth yw eich cas ddyfais chi? Dyna'r cwestiwn a atebwyd gan filoedd ar safwe'r Radio Times ychydig flynyddoedd yn ôl ac roedd y canlyniadau'n peri peth syndod**

## 1 ARFAU

Bomiau, bidogau, arfau biolegol – dyfeisiadau sy'n achosi niwed corfforol – ddaeth i'r brig. Arfau niwclear oedd y casaf gan 11% o'r holl bleidlais. Ddwywaith erioed maen nhw wedi cael eu defnyddio – y 'Little Boy' ar Hiroshima yn Japan ar Awst 5ed, 1945 a 'Fat Man' ar Nagasaki dridiau'n ddiweddarach.



## 2 FFONAU SYMUDOL

Syndod! Mae ffonau symudol wedi bod ar gael ym Mhrydain ers 1985 ac erbyn hyn mae tri chwarter poblogaeth Prydain yn berchen ar un. Er bod peth pryder meddygol am gysylltiad ffonau symudol a thiwmor yr ymennydd, nid yw ymchwil wedi gallu cadarnhau hyn. Efallai mai caniad y ffonau sy'n corddi pobl!




## 3 YNNI NIWCLEAR

Damweiniau fel Chernobl sy'n rhoi'r wobr efydd i ynni niwclear. Mae damweiniau'n brin ond pan ddigwyddant mae'r effeithiau'n ddirdynnol. Mae rhedeg atomfeydd niwclear yn llawer mwy costus nag unrhyw ffynhonnell ynni arall a'r trethdalwr sy'n talu. Mae sut i gael gwared o'r gwastraff hefyd yn bryder.



## 4 SINCLAIR C5

Beth ydy e? Bygi? Go-cart? Na! Car bach tair olwyn yn rhedeg ar fatri oedd hwn, fel tegan o'i gymharu â maint ceir go iawn. Cafodd ei ddyfeisio gan Syr Clive Sinclair a'i lansio ym Mhrydain yn 1985. Er mai dim ond £399 oedd ei bris, 17,000 yn unig a werthwyd. 15 milltir yr awr oedd ei gyflymder uchaf!



*Llun gan Michiel1972/CC Wikimedia*

## 5 Y CAR

Tegan y cyfoethogion oedd y car pan ymddangosodd gyntaf yn y 1880au. Wrth i'r prisiau ostwng daeth o fewn cyrraedd pobl gyffredin ac erbyn hyn mae dros 64 miliwn o geir yn cael eu cynhyrchu yn y byd bob blwyddyn. Er bod llawer o drafod 'dyw dydd y tanwydd gwyrdd ddim o fewn cyrraedd eto a bydd y car yn ychwanegu at ein hôl traed carbon am flynyddoedd.




## 6 SIGARENNAU

Mae dynion sy'n ysmygu 22% yn fwy tebygol o ddatblygu cancr yr ysgyfaint a merched sy'n ysmygu 12% yn fwy tebygol o ddatblygu cancr yr ysgyfaint na dynion a merched sydd ddim yn ysmygu. Mae ysmygu hefyd yn cael ei feio am gancrau eraill a chlefyd y galon. Mae ysmygu tra'n feichiog yn golygu y bydd y babi yn pwyso llai.



## 7 TELEDU

Rhaglenni realaeth sy'n gosod y teledu yn y safle hwn. Er i'r teledu ei hun gael ei ddyfeisio yn y 1920au, y rhaglen realaeth gyntaf oedd Candid Camera yn America a ddarlledwyd yn 1948. Erbyn hyn mae dwy sianel yn America sy'n darlledu dim byd ond rhaglenni realaeth.



## 8 BWYDYDD CYFLYM

Yr Americanwyr yw'r 'fast food junkies' go iawn, yn gwario £73 ar fwyd cyflym yn 2006! Ond a yw dyddiau gorfwyta bwydydd seimllyd, llawn colestrol ar ben wrth i ni sylweddoli'r peryglon i'n hiechyd? Yn 2002 cyhuddodd criw o bobl ifanc gordew McDonalds o'u gwneud yn dew ond gwrthodwyd y cyhuddiad gan y llys.



## 9 CAMERÂU CYFLYMDER

Yn y 1950au dyfeisiodd y gyrrwr rali Maurice Gatsonides y camera cyflymder i fonitro ei gyflymder. Gosodwyd y rhai ffilmio ar ffyrdd Prydain yn y 1960au. Honna'r Adran Trafnidiaeth bod hyd at 42% llai o bobl yn cael eu lladd mewn mannau ble mae camerâu.



## 10 CREFYDD

Caiff crefydd ei feio am ddechrau rhyfeloedd ac nid yw crefydd a gwyddoniaeth yn gyfforddus iawn gyda'i gilydd heddiw.



